# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-05-09)

**Dyddiad: 24 Chwefror 2009**
**Amser: 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

SLC247 - Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Asesiadau, Awdurdodiadau Safonol ac Anghydfodau ynghylch Preswyliaeth) (Cymru) 2009

Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar ... 2009. Fe'u gosodwyd ar ... 2009. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2009
Mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin ag asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, sef asesiadau o ran cymhwysedd a dethol pobl i gynnal yr asesiadau hynny a'r terfynau amser ar gyfer eu cwblhau. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ymdrin â'r gofynion o ran gwybodaeth a roir ar awdurdodau rheoli wrth wneud cais am awdurdodiad o dan y trefniadau diogelu. Yn olaf, mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer trefniadau'n ymwneud ag anghydfod ynghylch preswyliaeth arferol mewn perthynas ag awdurdodau lleol.

### Eitem 2.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC245 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 11 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 7 Mawrth 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008 i eithrio eiddo busnes gwasg sydd â gwerth ardrethol sy'n llai na £15,000 o rwymedigaeth i dalu ardrethi rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2010.

SLC246 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 11 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2009.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008 ("Rheoliadau 2008"). Diwygiodd Rheoliadau 2008 ymhellach Reoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006") er mwyn cynyddu'r ffi sy'n daladwy gan ymgymerwyr am arolygiadau o'u gwaith gan awdurdodau stryd yng Nghymru o dan reoliad 3 o Reoliadau 2006. Y ffi a ragnodwyd yn wreiddiol yn Rheoliadau 2006 oedd £21. Newidiwyd y ffi i £24 yng Ngorffennaf 2007 gan Reoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) (Diwygio) 2007 (O.S. 2007 Rhif 1713 (Cy.150)), ac fe'i gynyddwyd i £25 gan Reoliadau 2008. Cynyddir y ffi ymhellach yn awr i £50.

SLC248 - Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Penodi Cynrychiolydd Person Perthnasol) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 11 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 13 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â phenodi cynrychiolydd person perthnasol ar gyfer person y mae ei amddifadu o'i ryddid wedi'i awdurdodi o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu y bydd swyddogaethau corff goruchwylio yn cael eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol gan y Gweinidogion Cymreig. Yn olaf, mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio Rheoliadau blaenorol mewn cysylltiad ag Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol.

SLC250 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2009

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 17 Chwefror 2009. Fe'u gosodwyd ar 18 Chwefror 2009. Yn dod i rym ar 11 Mawrth 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 er mwyn cyfeirio at godiad yn y ffioedd ar gyfer profion golwg GIG o 2.5%.

### Eitem 3: Ystyried y Mesur Seneddol Atodiadau Ardrethi Busnes

**Y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes**:

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmbills/002/2009002.pdf (Saesneg yn unig)

Nodiadau esboniadol:

http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmbills/002/en/2009002en.pdf (Saesneg yn unig)

SLC(3)-05-2009(p1) - Adroddiad Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur Atodiadau Ardrethi Busnes

SLC(3)-05-2009(p2) - Ymateb y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**Papurau i'w nodi:**

Llythyr y Cadeirydd i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Caiff y pwyllgor ei wahodd i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi):**

Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi.

## Eitem 4: Ehangu'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth: Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig - ystyried y materion allweddol (parhad)

SLC(3)-03-09(p4) - Ymchwiliad i'r gwaith craffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig: y materion allweddol

**Papurau i'w nodi:** Ymatebion gan bwyllgorau craffu, Swyddfa Cymru a Chomisiwn y Gyfraith.

## Eitem 5: Unrhyw fater arall

## Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf